# LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

Croeso cynnes iawn i chweched rifyn Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Ein ffocws yn y cylchlythyr hwn yw ein tîm perfformiad, Rebekah a Simon.

## CWRDD Â SIMON A REBEKAH



**Cwrdd â Simon**

Simon Williams yw'r rheolwr rhaglen a newid ar gyfer perfformiad a chyllid. Mae Simon wedi bod yn aelod o dîm BPRhGC ers dros ddwy flynedd a hanner, gan ymuno wrth i'r sefydliad baratoi i dderbyn cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol am y pum mlynedd nesaf. Mae'n gyfrifol am Fodelau Gofal 2 a 5, gan ganolbwyntio ar ofal cymhleth yn nes at y cartref a gwasanaethau gartref o'r ysbyty. Yn

ogystal, mae Simon yn chwarae rhan allweddol mewn monitro ac adrodd perfformiad, gan oruchwylio datblygiad dulliau adrodd a phrosesau casglu data ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Gan fod Simon yn goruchwylio model gofal, mae'n cynorthwyo hwyluso cyfathrebu rhwng y tair sir ac alinio amcanion rhanbarthol a lleol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y boblogaeth. Drwy'r Modelau Gofal, nod BPRhGC yw nodi arferion gorau y gellir eu mabwysiadu fel y model gofal rhanbarthol. Yn y pen draw, gellid cynyddu'r arferion hyn i fod yn fodel cenedlaethol i Gymru.

Mae Simon a Rebekah wedi canolbwyntio ar ddatblygu dulliau casglu data gan ddefnyddio ffurflenni SNAP ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Ar ôl ei gasglu, caiff y data hwn ei brosesu a'i ddelweddu mewn dangosfyrddau a ffeithluniau, a ddefnyddir wedyn mewn adroddiadau i ddangos effaith y cyllid.



**Cwrdd â Rebekah**

Ymunodd Rebekah â BPRhGC dros 4.5 mlynedd yn ôl. Mae hi'n aelod o'r tîm hwyluso ac yn cefnogi ystod eang o flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol h.y. adrodd gan gynnwys dysgu a rennir a dadansoddi data ar gyfer strategaethau rhanbarthol fel Gofalwyr Di-dâl. Arweiniodd Rebekah ar ddatblygiad technegol gwefan BPRhGC ac mae hi'n rheoli'r gwaith o ddatblygu'r porth data. Bydd Rebekah yn ymuno â Michael i greu astudiaethau achos gyda ffocws ar sicrhau bod byrddau stori Michael yn cynnwys ac yn tynnu sylw at y canlyniadau strategol ar gyfer unigolion a systemau.

# BETH YW'R GRONFA INTEGREDIG RANBARTHOL?

Diffinnir y Gronfa Integredig Ranbarthol gan Lywodraeth Cymru fel cronfa 5 mlynedd i gyflwyno rhaglen newid rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2027. Cyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol cafwyd y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Defnyddir y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel adnodd ychwanegol i greu newid cynaliadwy i systemau drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru gyllid i weithredu prosiectau arloesol sy'n integreiddio gwasanaethau ar draws gwahanol bartneriaid ac asiantaethau yn eu rhanbarthau priodol.

Mae nodweddion a gwerthoedd allweddol y Gronfa yn cynnwys;

- Canolbwynt cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Datblygu ac ymgorffori modelau cenedlaethol gofal integredig (y cyfeirir atynt fel modelau gofal yn y ddogfen hon)
- Mynd ati i rannu dysgu ar draws Cymru drwy Gymunedau Arfer
- Defnyddio offer cynaliadwy yn yr hirdymor i ymgorffori modelau gofal newydd a'u rhoi yn y brif ffrwd
- Creu trefniadau cronfa gyfun tymor hir
- Buddsoddiad cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn sbardun allweddol i ysgogi newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a chymdeithasol ac wrth wneud hynny bydd yn cefnogi gweithredu sawl darn allweddol o bolisi a deddfwriaeth yn uniongyrchol.

# BETH SYDD GAN Y BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL I'W WNEUD Â CHYLLID A PHERFFORMIAD?

Mae'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu dull unedig o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ledled Gorllewin Cymru. Mae'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn gosod blaenoriaethau rhanbarthol ac yn llywio cyfeiriad cyffredinol y mentrau hyn. Mae'r blaenoriaethau hyn yn llywio ein gwaith a'n prosiectau, gan sicrhau cysondeb â nodau rhanbarthol. Mae BPRhGC yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r blaenoriaethau a bennwyd.

Mae adrodd yn gywir ac amserol i Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn dangos effaith gadarnhaol ein gwaith yng Ngorllewin Cymru. Drwy arddangos y cyflawniadau sylweddol yng Ngorllewin Cymru, gallwn eirioli yn effeithiol dros gyllid parhaus a sicrhau cynaliadwyedd ein mentrau. Rydym wedi ymrwymo i symleiddio'r broses hon.

Mae pob prosiect y Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei adrodd i brif gyfarfod BPRhGC, a fynychir gan gyfarwyddwyr iechyd a gofal cymdeithasol, i'w hysbysu am brosiectau parhaus a'u cynnydd.

# ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae ein hastudiaethau achos yn dangos sut mae mentrau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyd-fynd â nodau strategol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a blaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (BPRhGC). Drwy arddangos effaith sylweddol yr ymdrechion hyn, mae'r astudiaethau achos yn tynnu sylw at y cynnydd a'r gwerth y mae'r rhaglenni hyn yn eu cynnig i'r rhai sydd angen gofal a chymorth yn ein cymunedau yng Ngorllewin Cymru, gan bwysleisio ymroddiad y rhanbarth i ofal integredig a chydweithio rhyngasiantaethol. Mae ffocws ein hastudiaethau achos yn ymestyn i feysydd blaenoriaeth allweddol eraill, gan gynnwys rhaglenni sy'n mynd i'r afael â heriau iechyd penodol ac ymyriadau cynnar, cefnogaeth i bobl oedrannus, pobl anabl a grwpiau agored i niwed eraill, a phrosiectau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd yn tynnu sylw at fentrau sy'n mynd i'r afael â heriau'r gweithlu o fewn y sector.

Moyna Case Study FINAL 28 Oct 24 - YouTube

Mae ceisiadau am gymorth o ran y cyfryngau yn mynd i adran Cyfathrebu BPRhGC i'w hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau, ac asesir effaith a chyrhaeddiad posibl cynnwys y cyfryngau. Mae ceisiadau cymeradwy wedi'u trefnu yn seiliedig ar ba mor frys ydyn nhw a'r adnoddau sydd ar gael

# BWRDD YMGYSYLLTU Â DINASYDDION A'R TRYDYDD SECTOR



Erbyn hyn rydym wedi cynnal chwe chyfarfod o'r Bwrdd Ymgysylltu â Dinasyddion a'r Trydydd Sector, mae aelodaeth y bwrdd yn parhau i dyfu a chryfhau.

Rydym wedi parhau i fireinio ein blaenraglen waith a'r agenda ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein cynrychiolwyr, sy'n rhannu eu gwybodaeth a'u profiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad prosiectau a gwasanaethau.

Yn ogystal â chynnal cyfarfodydd, rydym ar gael i ymweld â grwpiau cymorth a chanolfannau llesiant i gasglu adborth a mewnwelediadau ar brosiectau a gwasanaethau yng Ngorllewin Cymru.

Cysylltwch â wwrpb@carmarthenshire.gov.uk i fynegi eich diddordeb.

# YDYCH CHI'N CYMRYD RHAN MEWN GWEITHGAREDDAU CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU EICH SEFYDLIAD?

Ar hyn o bryd rydym yn mapio cyfarfodydd presennol, ar-lein ac wyneb yn wyneb, sy'n hwyluso cyfathrebu, ymgysylltu neu gyd-gynhyrchu. Er mwyn cydgysylltu ymdrechion yn well, rydym yn cynnig sefydlu sesiynau galw heibio misol i unigolion sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar ddod a'r bobl fydd yn bresennol.

Ein nod yw osgoi dyblygu a hyrwyddo aliniad. Os ydych eisoes yn cynnal cyfarfod tebyg, rhowch wybod i ni. Mae nifer o sefydliadau wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan.

Cysylltwch â wwrpb@carmarthenshire.gov.uk os ydych yn trefnu cyfarfod fel hyn, neu os hoffech gymryd rhan yn y cyfarfod galw heibio.

# Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYFALAF

Mae'r BPRhGC bellach wedi cymeradwyo'r defnydd o broses flaenoriaethu newydd ar gyfer cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol yn y cynllun 10 mlynedd rhanbarthol. Mae hyn yn ofyniad allweddol er mwyn i'r rhanbarth roi sicrwydd i Llywodraeth Cymru bod proses flaenoriaethu gadarn yn bodoli ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae'r broses bellach yn cynnwys ffurflen sgrinio "Rhan Sero" sy'n darparu cyfres o feini prawf i arweinwyr prosiect a chyfarwyddwyr y mae angen eu hystyried wrth gyflwyno achos dros fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae'r broses yn berthnasol i holl brosiectau wedi'u targedu gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso a/neu unrhyw gynlluniau y disgwylir iddynt gostio dros £2m a ariennir drwy'r Gronfa Tai â Gofal.

Mae rhagor o fanylion ar gael gan y Tîm Cyfalaf Rhanbarthol GCCyfalafSRP@sirgar.gov.uk

# CYNHADLEDD BPRHGC A GWOBRAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL GORLLEWIN CYMRU

Byddwn yn agor yr enwebiadau ar gyfer Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gorllewin Cymru ar ein gwefan ddechrau mis Tachwedd!

Cadwch lygad ar y ddolen hon am fwy o wybodaeth am y broses a'r ffurflen enwebu:

https://wwrpb.org.uk/en/wwrpb-conference-awards-2025/

# DIGWYDDIADAU I DDOD

Wythnos Diogelu Cenedlaethol: Bwrdd Diogelu Canolbarth A Gorllewin Cymru Cynhadledd



PLANED


PLANED
Catalysts for Care
MICRO ENTERPRISES CARMARTHENSHIRE
Dyfed
age Cymru
DROP IN & FIND OUT MORE ABOUT
SERVICES & SUPPORT
in Carmarthenshire
SUPPORT
ASSISTANCE
GUIDANCE
& transport consultation -input on current transport barriers
Meet and chat to many service providers
Open to the public from:
3:00 pm - 4:00pm
Friday 15th November 2024
COME TO
Towy Church
Xcel project
St Catherines Walk, Carmarthen SA31 1GA
(opposite the old Debenhams building)
For more information:
Contact Lucy on 07789 793228
lucy.cummings@planed.org.uk
PLANED
CGGSG ~ CAVS
Catalysts for Care
UK Government
Llywodraeth y DU

## Dewch i ymuno â ni yn ein

# Digwyddiad Byw'n Iach yn Sir Gâr

Bydd gwybodaeth, gweithgareddau a sesiynau blasu ar gael a chyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu â phobl am yr hyn y gallwch ei wneud i fyw'n dda.

## Come and join us at our

# Living Well in Carmarthenshire Event

There will be information, activities, and taster sessions available and opportunities to learn and engage with people about what you can do to live well.

**Gweithgareddau Chwarae gyda'r Tîm Chwarae**
Play Activities with the Play Team

**Sesiynau Ymlacio**
Relaxation Sessions

**Celf a Chrefft**
Arts and Crafts

**Sesiynau blasu Hamdden Actif**
Actif Leisure taster sessions

**Tachwedd | November**
**29**
**10am - 2pm**

**Canolfan Tywysoges Gwenllian, Cydweli**
Princess Gwenllian Centre, Kidwelly

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.uk

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Hywel Dda University Health Board

Cyngor Sir Gâr | Carmarthenshire County Council

### Cynrychiolydd Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Os hoffech ddod i'r cyfarfod nesaf ar Rhagfyr 17, anfonwch neges atom at wwrpb@sirgar.gov.uk.

## Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol **Gorllewin Cymru**
**West Wales** Regional Partnership Board

Facebook @PGGCWWCP

Instagram @PGGCWWCP

X @PGGCWWCP

LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

https://www.wwrpb.org.uk/

## Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu *ar draws ein sianeli yn y cyfryngau,* neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!

#WWRPB
@PGGCWWCP
Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf: www.wwrpb.org.uk
Ymholiadau pellach: wwrpb@carmarthenshire.gov.uk